This document is available in English *(Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg)*

# Is-ranbarth Gwent gynt

# Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol - Datganiad Sefyllfa

## Medi 2025

Paratowyd gan:

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Cyngor Sir Fynwy

Cyngor Dinas Casnewydd

Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

**TABL CYNNWYS**

1. Cyflwyniad ........................................ 1
2. DTRh2 Dosraniadau a Dyraniadau – Y Gofynion ........................................ 1
3. Y Sefyllfa Ddiweddaraf ........................................ 3

# 1. Cyflwyniad

1.1. Mae Polisi Cynllunio Cenedlaethol ym Mholisi Cynllunio Llywodraeth Cymru (PCC 12) (Chwefror 2024) a Nodyn Cyngor Technegol Mwynau 1 ar 'Agregau' (MTAN1) (Mawrth 2004) yn nodi bod sicrhau cyflenwad cynaliadwy o fwynau, yn fater strategol sy'n chwarae rôl sylfaenol, ac yn un sy’n sail i gefnogi datblygiadau nad ydynt yn gysylltiedig â mwynau. Dylai pob Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl) sicrhau ei fod yn cyfrannu’n briodol at ddiwallu anghenion yn lleol, yn rhanbarthol ac yn y DU am fwynau sylfaenol sy'n adlewyrchu natur a maint yr adnoddau yn yr ardal a'r defnydd gorau a mwyaf priodol y gellir ei wneud ohonynt, yn amodol ar yr ystyriaethau amgylcheddol ac ystyriaethau cynllunio eraill sy’n berthnasol. O ran agregau (sef 'creigiau wedi'u malu' a 'thywod a graean') dylid gwneud hyn o dan nawdd Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd a De Cymru (sy’n cynnwys yr Awdurdodau Cynllunio Lleol (ACLl) cyfansoddol, Llywodraeth Cymru, ymgynghorwyr arbenigol a'r diwydiannau mwynau ac ailgylchu), y mae’n rhan o’u rôl i roi trosolwg rhanbarthol o’r cyflenwad a’r galw, a hynny thrwy’r fframwaith a ddarperir gan y Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Agregau; y mae'n ofynnol eu hadolygu bob 5 mlynedd.

1.2. Mae'r Datganiad Technegol Rhanbarthol diweddaraf ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru- Ail Adolygiad (DTRh2) Prif Ddogfen ac Atodiad B ar gyfer De Cymru (y ddau ym mis Medi 2020) yn nodi'r dosraniadau a'r dyraniadau angenrheidiol ar lefel ACLl ond hefyd ar lefel is-ranbarthol o 2017-2042 (o ddyddiad sylfaen yr Arolwg Agregau ym mis Rhagfyr 2016) ar gyfer creigiau wedi'u malu a 2039 ar gyfer tywod a graean tir a gloddiwyd o’r tir. Mae hyn er mwyn caniatáu i ardaloedd is-ranbarthol addasu dosraniadau o fewn yr is-ranbarthau hynny os yw ymchwiliad manylach gan yr ACLl yn dangos bod addasiadau o'r fath yn cael eu cyfiawnhau. Fodd bynnag, oherwydd gwall yng nghyfrifiadau dosrannu DTRh2, diwygiodd Llywodraeth Cymru holl ddosraniadau DTRh2 De-ddwyrain Cymru mewn 'Llythyr Eglurhad' (5 Tachwedd 2021).

1.3. I'r perwyl hwnnw, mae DTRh2 yn ei gwneud yn ofynnol i Ddatganiadau o Gydweithredu Is-ranbarthol (SSRC) gael eu paratoi ar y cyd, gan yr holl ACLl cyfansoddol ym mhob isranbarth DTRh (fel y'i diffinnir gan 2il Adolygiad DTRh) fel rhan o'r sylfaen dystiolaeth sydd ei hangen i gefnogi pob Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) neu Gynllun Datblygu Strategol (CDS). Ar ôl dod i gytundeb, bydd SSRC yn aros yn ei le nes ei fod yn cael ei ddisodli gan ofynion adolygiadau DTRh yn y dyfodol, neu hyd nes i wybodaeth newydd ddod i’r amlwg, i gyfiawnhau newid.

1.4. Y ddogfen hon yw'r datganiad sefyllfa ar gyfer SSRC isranbarth Gwent gynt, sy'n cynnwys ardaloedd awdurdodau cynllunio lleol Blaenau Gwent, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen.

# 2. DTRH2 Dosraniadau a Dyraniadau – Y Gofynion

2.1. Mae DTRh2 yn nodi, yn Ne Cymru, bod tywod sy’n cael ei dreillio o Fôr Hafren, Aber Hafren a Thraeth Bedwin yn darparu'r cyflenwad fwyaf; ac mae lefelau tebyg o gynhyrchu yn debygol o barhau yn y blynyddoedd i ddod. Ar y sail hon, nid oes gofyniad DTRh2 i wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer echdynnu adnoddau 'tywod a graean' ar y tir yn isranbarth Gwent gynt.

2.2. Fodd bynnag, mae Tabl 1 isod yn nodi'r gofynion dosrannu a dyrannu ACLl unigol ar gyfer 'craig wedi'i falu' fel y'u nodir yn DTRh2 o fewn isranbarth Gwent gynt (fel y'i diwygiwyd gan Lythyr sy’n Egluro Polisi DTRh2).

Tabl 1: DTRh2 Dosraniadau a Dyraniadau – Y Gofynion

| ACLl | Dosraniad Blynyddol | Cyfanswm y Dosraniad (cyfnod cynllun 15 mlynedd + banc tir 10 mlynedd) | Cronfeydd wrth gefn | Diffyg / Gwarged | Manylebau DTRh2 |
|---|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | 0.204 Mtpa | 5.100 Mt | 1.32 Mt | Diffyg o 3.78 Mt | Y prif ofyniad yw ategu at y cronfeydd wrth gefn presennol o Galchfaen Carbonifferaidd; er bod DTRh2 hefyd yn cyfeirio at botensial Tywodfaen (Agregau Manyleb Uchel (AMU). |
| Sir Fynwy | 0.242 Mtpa | 6.05 Mt | 11.25 Mt | Gwarged o 5.2 Mt | O ystyried gwarged y cronfeydd wrth gefn a ganiateir ar hyn o bryd ar gyfer creigiau wedi'u malu, a'r diffyg cynhyrchu tywod a graean, nid oes angen nodi unrhyw ddyraniadau pellach ar gyfer gwaith yn y dyfodol yn benodol o fewn y CDLl. |
| Casnewydd | 0.452 Mtpa | 11.3 Mt | 0 | Diffyg o 11.2 Mt | Mae'r gofyniad yn benodol ar gyfer Calchfaen Carbonifferaidd, er y gallai cyfraniadau o adnoddau tywod a graean oddi ar y tir fod yn ymarferol. |
| Torfaen | 0.15 Mtpa | 3.75 Mt | 0 | Diffyg o 3.75 Mt | Gallai'r gofyniad gael ei fodloni naill ai gan Dywodfaen AMU a/neu gan Galchfaen Carbonifferaidd, er y gallai cyfraniadau o adnoddau tywod a graean oddi ar y tir hefyd fod yn ymarferol. |
| Cyfanswm | 1.048 Mtpa | 26.2 Mt | 12.57 Mt | -13.53 Mt | Nid yw'r ffigurau'n cyfateb oherwydd talgrynnu o fewn DTRh2 |

2.3. Fel y gwelir o'r tabl uchod, mae gan bob awdurdod, ac eithrio Sir Fynwy, ddiffyg cronfeydd creigiau wedi'u malu wrth gefn. Mae gan Sir Fynwy ddigon o gronfeydd wrth gefn a ganiateir i gwrdd â'i dosraniad, felly nid oes angen unrhyw ddyraniadau pellach o fewn ei CDLlN. Fodd bynnag, yn unol a DTRh2 mae angen ystyried y tri awdurdod arall ymhellach.

2.4. Mae DTRh2 yn nodi, yn ddiofyn, y bydd pob SSRC yn cadarnhau bod pob ACLl cyfansoddol o fewn isranbarth DTRh penodol yn derbyn y rhaniad unigol ar gyfer agregau ar gyfer eu hardaloedd awdurdod unigol, fel y nodir yn y tabl uchod.

2.5. Fodd bynnag, mae DTRh2 yn cydnabod y gall SSRC mewn amgylchiadau eithriadol, nodi patrwm cyflenwi amgen sy'n cyflawni gofynion y DTRh ar gyfer yr isranbarth penodol hwnnw mewn ffordd wahanol. Gall amgylchiadau o'r fath godi *naill ai* pan nad yw un neu fwy o ACLl yn yr isranbarth yn gallu bodloni gofynion sylfaenol eu dosraniadau a nodwyd yn yr DTRh *neu* pan fo patrwm cyflenwi amgen, cyraeddadwy a mwy cynaliadwy yn cael ei nodi trwy gydweithio rhwng yr ACLlau dan sylw.

2.6. Mae DTRh2 yn nodi'r ystyriaethau y bydd angen eu cymhwyso, mewn amgylchiadau o'r fath, fel a ganlyn:

1. ***Methu cyflawni dosraniadau'r DTRh***: Er mwyn dangos nad yw'n gallu cyflawni dosraniadau'r DTRh, byddai'n rhaid i Awdurdod Cynllunio Lleol ddangos naill ai nad oes ganddo unrhyw adnoddau agregau ymarferol o'r math sy'n ofynnol yn ôl y DTRh (neu rai annigonol), a/neu nad oes diddordeb gan y diwydiant mwynau mewn datblygu adnoddau o'r fath yn yr ardal. *Ni* fydd yn ddigonol dangos nad oes chwareli presennol neu ddim gweithgarwch cynhyrchu diweddar yn yr ardal, neu fod adnoddau amgen a/neu gronfeydd wrth gefn a ganiateir yn bodoli mewn Awdurdod Cynllunio Lleol arall.
2. ***Patrwm cyflenwi amgen***: Os cynigir patrwm cyflenwi amgen, bydd hyn yn golygu trosglwyddo rywfaint o ddosraniad y DTRh, neu'r dosraniad cyfan, o un Awdurdod Cynllunio Lleol i un neu fwy o rhai eraill yn yr un isranbarth er mwyn cynyddu'r ddarpariaeth sy'n cyfateb o fewn yr Awdurdodau hynny, fel y mae MTAN 1 yn ei fynnu. Bydd rhaid i'r Awdurdodau sy'n derbyn, gynyddu eu dosraniadau (a, lle bo angen, eu dyraniadau), i sicrhau, *o leiaf*, bod y gofynion cyffredinol ar gyfer cyflenwad parhaus yn yr isranbarth hwnnw, fel y nodir yn y DTRh, yn cael eu bodloni (o ran nifer ac o ran y math o agregau). Fel arfer, ni fydd yn briodol dim ond trosglwyddo dosraniadau i Awdurdod Cynllunio Lleol sydd â digon o gronfeydd wrth gefn ar hyn o bryd, i gorffori'r dosraniad yn rhifyddol, heb gyfeirio at yr angen ychwanegol i ystyried y gallu i gynhyrchu.

# 3. Y Sefyllfa Ddiweddaraf

3.1. Mae cynrychiolwyr Is-ranbarth Gwent gynt, wedi cyfarfod yn rheolaidd i drafod gofynion yr DTRh2 ac ystyried opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r diffyg isranbarthol. Cam cyntaf y broses hon oedd i bob ACLl asesu eu hadnoddau agregau i ganfod y potensial i gynnal rhywfaint o'u dosraniad eu hun neu'r dosraniad cyfan, yn ogystal â dosraniadau ACLau eraill.

3.2. Mae'r cam i gadarnhau diffyg agregau wedi parhau i fod yn ansicr oherwydd cais cynllunio arfaethedig a phenderfyniadau o ran safleoedd ymgeisiol. Fodd bynnag, ar ôl cymeradwyo'r estyniad arfaethedig i Chwarel Trefil ym mis Mai 2025, mae'r isranbarth bellach yn gallu cadarnhau diffygion mewn dosraniadau Calchfaen Carbonifferaidd. Ni ellir diwallu'r diffygion hyn o fewn yr isranbarth felly bydd angen cydweithredu ag ACLl mewn isranbarthau cyfagos bellach. Er bod mwy o sicrwydd ynghylch dosraniadau Calchfaen Carbonifferaidd, mae gwaith yn mynd rhagddo i gadarnhau'r ddarpariaeth agregau Tywodfaen. Mae Tabl 2 yn dangos crynodeb o sefyllfa ddiweddaraf pob ACLl.

Tabl 2: Sefyllfa Dosraniadau Is-ranbarth Gwent gynt

| LPA | Cymeradwyo DTRh2 | Sefyllfa'r CDLlN | Sefyllfa Datganiadau o Gydweithredu Is-ranbarthol (SSRC) | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|
| Blaenau Gwent | DTRh2 heb ei gymeradwyo gan y Cyngor | Ymgynghorwyd ar y Strategaeth a Ffefrir yn Ion/ Chwef. 2020. Cytunwyd ar y Cytundeb Cyflenwi (CC) Diwygiedig ym mis Gorffennaf 2024. Disgwylir yr ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau Newydd ym mis Medi / Hydref 2025. | Cynhaliwyd Asesiad Adnoddau Agregau Calchfaen (Mawrth 2024). Daw i'r casgliad y gall Blaenau Gwent fodloni ei dosraniad ei hun pe bai'r cais cynllunio i ymestyn Chwarel Trefil (Calchfaen Carbonifferaidd) yn cael ei gymeradwyo (Cyfeirnod y cais C/2022/0171).<br><br>Ar 14 Tachwedd 2024 penderfynodd y Pwyllgor Cynllunio roi caniatâd cynllunio ar gyfer y cais arfaethedig i ymestyn Chwarel Trefil. Yn dilyn y cyfnod 'galw i mewn' gofynnol i Weinidogion Cymru ystyried a oedd unrhyw faterion o fwy o bwys na phwysigrwydd lleol, cyhoeddwyd hysbysiad ar 21/5/2025yn datgan y penderfyniad i ymestyn Chwarel Trefil.<br><br>Felly, gall Blaenau Gwent fodloni ei ddosraniad ei hun ond nid yw'n gallu bodloni dosraniad ACLl arall. Er bod banc tir wrth gefn a gymeradwywyd yn arwain at warged cymedrol yn erbyn gofynion DTRh2, mae'r cronfeydd wrth gefn yn Nhrefil wedi'u lleoli o fewn SoDdGA daearegol Mynydd Llangynidr lle gwelwyd amgylchiadau eithriadol o ran gweithio'r mwynau. Ni fyddai'n briodol i'r gwarged fynd i'r afael ag anghenion agregau ACLl arall lle gallai fod darpariaeth amgen ar gael y tu allan i SoDdGA.<br><br>Mae'r CDLl a fabwysiadwyd yn nodi dwy Ardal arall a ffefrir: Tir i'r Dwyrain o Gwm (potensial ar gyfer 60 Mt o Dywodfaen AMU) a Thomen Tir Pentwys, Llanhiledd (potensial ar gyfer Tywodfaen AMU). Mae'r rhain yn cael eu hadolygu fel rhan o'r CDLlN ac asesiad adnoddau. Gwyddys bod gan Gwm yn arbennig gyfyngiadau o ran mynediad a'r gallu i gyflawni. | Gall gyflawni ei ddosraniad ei hun ond nid dosraniad ACLl arall. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Sir Fynwy | Cymeradwywyd y DTRh2 gan yr Aelod Cabinet ar 13 Ionawr 2021. Cafodd ei gymeradwyo mewn perthynas â'r dosraniad unigol yn unig ac nid i gytuno i'r egwyddor o fodloni'r dosraniad isranbarthol ehangach oherwydd y diffyg gwybodaeth ynghylch y goblygiadau i'r CDLlN. | Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023. Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor ym mis Hydref 2023 i gytuno ar y Strategaeth a Ffefrir yn dilyn ymgynghoriad.<br><br>Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau Tachwedd/Rhagfyr 2024. Disgwylir y bydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn yr hydref 2025.<br><br>Ni chyflwynwyd unrhyw safleoedd ymgeisiol sy'n gysylltiedig â mwynau. | Mae DTRh2 yn nodi cronfeydd wrth gefn sy'n ddigonol i fodloni dosraniad Sir Fynwy, a daw i'r casgliad nad oes angen dyraniadau.<br><br>Cwblhawyd Asesiad o Adnoddau Agregau Calchfaen (Chwef. 2024). Daeth i'r casgliad, nad oes potensial ar hyn o bryd i fodloni rhywfaint neu'r cyfan o'r dosraniad Calchfaen Carbonifferaidd sy'n ofynnol ar gyfer ACLl eraill o fewn Is-ranbarth Gwent gynt, oherwydd lefel y cyfyngiadau sy'n berthnasol i'r cronfeydd wrth gefn a nodwyd yn Sir Fynwy. | Gallu bodloni ei ddosraniad ei hun ond ni all fodloni dosraniad ACLl arall. |
| Casnewydd | Cymeradwywyd yr DTRh2 gan yr Aelod Cabinet 9 Hydref 2020. | Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir rhwng Hydref a Rhagfyr 2023. Mae ymgynghoriad ar y Cynllun Adnau, wedi'i drefnu ar hyn o bryd ar ddiwedd 2025. | Cwblhawyd adolygiad o adnoddau Calchfaen Carbonifferaidd (2023). Mae'r canfyddiadau yn dod i'r casgliad na fydd Casnewydd yn gallu cyflawni unrhyw ran o'i ddosraniad Calchfaen Carbonifferaidd yn ei GDLlN.<br><br>Anfonwyd gohebiaeth ffurfiol i awdurdodau eraill yn Is-ranbarth Gwent gynt, ym mis Gorffennaf 2023 yn gofyn iddynt ymchwilio i'w gallu i fodloni dosraniad Casnewydd. Mewn ymateb, ar ôl asesu'r adnoddau Calchfaen Carbonifferaidd posibl yn eu hardaloedd, nid oedd yr un o'r awdurdodau hyn yn gallu bodloni dosraniad Casnewydd. | Ni All fodloni ei ddyraniad ei hun na dyraniad ACLl arall.<br><br>Yn ogystal, nid yw'r un o ACLlau Gwent gynt yn gallu bodloni dosraniad Casnewydd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Torfaen | Cymeradwywyd y DTRh2 yng nghyfarfod y Cyngor ar 16 Tachwedd 2021; a *“nododd y byd adroddiad ar y 'Datganiad o Gydweithredu Is-ranbarthol' yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w ystyried yn y dyfodol.”* | Yn ôl Amserlen Paratoi Cytundeb Cyflawni Diwygiedig CDLlN Torfaen, Tachwedd 2024 mae disgwyl y bydd ymgynghoriad ar Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLlN yn cael ei gynnal ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2025 a'r CDLlN Adnau ym mis Tachwedd-Rhagfyr 2026.<br><br>Cyflwynwyd Safle Ymgeisiol Chwarel Tir Pentwys (Llanhiledd) i gloddio 4.75 Mt (amcangyfrif 250,000 tunnell y flwyddyn) o dywodfaen AMU. | Mae Torfaen yn paratoi ei Bapur Cefndir Mwynau ar gyfer y CDLlN i'w ystyried gan y Cyngor yn y dyfodol. Dengys drafft o’r casgliadau cynnar nad oes unrhyw ddarpar adnoddau Calchfaen Carbonifferaidd yn Nhorfaen oherwydd tirwedd, capasiti’r priffyrdd ac effaith problemau datblygu cyfagos.<br><br>Mae saith adnodd Tywodfaen AMU yn yr arfaeth yn cael eu hymchwilio; diystyrwyd pedwar oherwydd ystyrir eu bod yn gwrthdaro ag 'Ardaloedd Sydd Wedi Cael Eu Hasesu Ymlaen Llaw ar gyfer Ynni Gwynt’, Polisi Cymru’r Dyfodol, Llywodraeth Cymru (y mae cais fferm wynt DNS Mynydd Maen (DNS/3276725) os caniateir yn debygol o effeithio arnynt) a 'Pharc Rhanbarthol y Cymoedd' (Polisïau 17 a 35 yn y drefn honno). Yn ogystal, mae pumed adnodd Tywodfaen AMU (Waun Wen) hefyd yn debygol o gael ei hepgor yn sgil y cais DNS cyfredol ar gyfer fferm wynt Abertyleri (DNS/3278009) os caiff ei chaniatáu<br><br>Felly, mae 'Adroddiadau Effaith Lleol' priodol y Cyngor wedi nodi effaith negyddol y cynigion ar adnoddau agregau tywodfaen AMU wedi'u diogelu (o dan Bolisi M1 CDLl Torfaen) / ac felly’r potensial llai i Dorfaen gyflawni ei dosraniad DTRh2; a fydd yn fater i PEDW/LlC ei ystyried wrth fynd ati i wneud penderfyniadau cytbwys am y ceisiadau hyn.<br><br>Y prif adnodd tywodfaen AMU sy'n weddill i fodloni dosraniad DTRh2 Torfaen yw ‘Ardal Tir Pentwys a ffefrir ar gyfer Agregau’ a fabwysiadwyd yng Nghynllun DLlN (Polisi M3) (7.2 Mt o Dywodfaen AMU) a gyflwynwyd fel Safle Ymgeisiol 4.75 Mt (amc. 250,000 tunnell y flwyddyn) yng Nghynllun DLlN Torfaen (2022-2037); gyda chynnig ar gyfer ffordd fynediad newydd 13.5km i'r gogledd, y mwyafrif ohoni ym Mlaenau Gwent. Cyflwynwyd Barn Cwmpasu Asesiad Effaith Amgylcheddol i Gyngor BST (22/P/0762/SCOPE) a Chyngor BSBG ym mis Hydref 2022 ar y cynnig diweddaraf hwn. Ar hyn o bryd mae darpar ddatblygwr y chwarel yn adolygu aliniad y ffordd fynediad, ac mae'r ddau Gyngor yn disgwyl | Gall o bosibl fodloni ei dosraniad ei hun ond nid dosraniad Calchfaen Carbonifferaidd ACL arall. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | cadarnhad am y llwybr mynediad arfaethedig. Felly, mae'r Cyngor yn gwerthuso'r Safle Ymgeisiol hwn i'w gynnwys o bosib yn ei GDLlN. | |

3.3. Fel y gwelir yn Nhabl 2, mae cyfres o amgylchiadau heriol ar waith ar draws y pedwar awdurdod, sydd hyd yma wedi ei gwneud hi'n anodd canfod beth yw'r diffyg is-ranbarthol a sut y gellir ei ddiwallu. Mae Sir Fynwy a Blaenau Gwent yn gallu diwallu eu hanghenion dosrannu eu hunain ond nid anghenion ACLl eraill. Efallai y bydd Torfaen yn gallu bodloni ei ddosraniad Tywodfaen ei hun ond nid yw'n gallu bodloni dosraniad Calchfaen Carbonifferaidd ACLl eraill. Mae'n nodi bod y mwyafrif o ragolygon Tywodfaen AMU yn debygol o gael eu hepgor os caniateir dau gais fferm wynt sy'n ddatblygiadau o bwysigrwydd cenedlaethol, yn y dyfodol agos. Nid yw Casnewydd yn gallu bodloni eu dosraniad eu hunain na dosraniad ACLl eraill. Er bod disgwyl i benderfyniadau safleoedd ymgeisiol ynglŷn â chronfeydd tywodfaen gael eu cadarnhau yng nghyhoeddiadau Cynlluniau Adnau, mae'r sefyllfa ar gyfer Calchfaen Carbonifferaidd bellach yn fwy sicr.

3.4. Mae DTRh2 yn nodi, os na ellir gwneud dyraniadau (neu gael caniatâd newydd) i fynd i'r afael â'r diffyg, efallai y bydd angen ystyried yr amgylchiadau a'r ystyriaethau a nodir yn Atodiad A yn y brif ddogfen DTRh, i gydweithio ag ACLl cyfagos yn yr un isranbarth, fel bod rhywfaint o'r ddarpariaeth ofynnol (dosraniad) yn cael ei throsglwyddo'n effeithiol. Pan fo tystiolaeth amlwg nad yw'r is-ranbarth yn ei gyfanrwydd yn gallu bodloni ei dosraniad ar y cyd, gellir cydweithredu ag ACLl eraill sy'n cyffinio'n uniongyrchol ag is-ranbarth cyfagos.

3.5. Ar hyn o bryd nid yw'n bosibl canfod beth yw diffyg cyfunol Is-ranbarth Gwent gynt, hyd nes y pennir y safleoedd ymgeisiol ym Mlaenau Gwent a Thorfaen mewn perthynas ag agregau tywodfaen. Fodd bynnag, gan nad yw Is-ranbarth Gwent gynt yn gallu bodloni dosraniad Calchfaen Carbonifferaidd Casnewydd, y cam nesaf o dan ganllawiau DTRh2 fydd cydweithio ag ACLl eraill mewn rhannau sy'n cyffinio'n uniongyrchol ag Is-ranbarth prifddinas Caerdydd.

3.6. Felly, bydd awdurdodau Is-ranbarth Gwent gynt yn cysylltu ag awdurdodau lleol yn isranbarth Prifddinas Caerdydd a byddant yn parhau i fonitro'r sefyllfa ac adolygu'r camau nesaf ymlaen yn unol â pholisi cenedlaethol ac argymhellion DTRh2.